| **H13** | **Substances and preparations capable by any means, after disposal, of yielding another substance, e.g. a leachate, which possesses any characteristics listed above**<br>***Sylweddau a chymysgeddau sy'n gallu drwy unrhyw fodd, ar ôl eu gwaredu, cynhyrchu sylwedd arall, e.e. trwytholch, sy'n meddu ar unrhyw un o'r nodweddion a restrir uchod*** |
| **H14** | **Ecotoxic/** ***Ecowenwynig*** |

**(5) Physical form: Choose one option from the list as appropriate.**
***Ffurf ffisegol: Dewiswch un opsiwn o'r rhestr fel y bo'n briodol.***

**Gas/** ***Nwy***
**Liquid/** ***Hylif***
**Mixed/** ***Cymysgedd***
**Powder/** ***Powdwr***
**Sludge/** ***Llaca***
**Solid/** ***Solid***

**(*) Mode of disposal/recovery or rejected : use the appropriate Rxx/Dxx code for the operation performed on the waste or insert REJ if the waste has been rejected**
***Dull gwaredu/adfer neu wedi'i wrthod : defnyddier y cod Rxx/Dxx priodol ar gyfer y gweithrediad y parwyd i'r gwastraff fynd drwyddo neu mewnosoder REJ os yw'r gwastraff wedi'i wrthod***

**Code/*Cod* Disposal operation/ *Gweithrediad gwaredu***

| | |
|---|---|
| **D01** | **Deposit into or onto land/ *Dyddodi i mewn neu ar dir*** |
| **D02** | **Land Treatment/ *Trin tir*** |
| **D03** | **Deep injection/ *Chwistrellu'n ddwfn*** |
| **D04** | **Surface impoundment/ *Cronni ar y wyneb*** |
| **D05** | **Specially engineered landfill/ *Tirlenwi wedi'i beiriannu'n unswydd*** |
| **D06** | **Release into a water body except seas/oceans/ *Rhyddhau i gorff dŵr ac eithrio moroedd/cefnforoedd*** |
| **D07** | **Release into seas/oceans including seabed insertion/ *Rhyddhau i foroedd/cefnforoedd gan gynnwys dodi yng ngwely'r môr*** |
| **D08** | **Biological treatment not specified elsewhere which results in final compounds or mixtures which are disposed of by any of the operations numbered D01 to D12** ***Triniaeth fiolegol nad yw wedi'i phennu yn unman arall ac sy'n arwain at gyfansoddion neu gymysgeddau terfynol y ceir gwared arnynt drwy unrhyw un o'r gweithrediadau sydd a rifwyd D01 i D12*** |
| **D09** | **Physic-chemical treatment not specified elsewhere which results in final compounds or mixtures which are disposed of by any of the operations numbered D01 to D12** ***Triniaeth ffisegol-gemegol nad yw wedi'i phennu yn unman arall ac ac sy'n arwain at gyfansoddion neu gymysgeddau terfynol y ceir gwared arnynt drwy unrhyw un o'r gweithrediadau a rifwyd D01 i D12*** |
| **D10** | **Incineration on land/ *Hylosgi ar dir*** |
| **D11** | **Incineration at sea/ *Hylosgi ar y môr*** |
| **D12** | **Permanent storage/ *Storio'n barhaol*** |
| **D13** | **Blending or mixing prior to submission to any of the operations numbered D01 to D12** ***Blendio neu gymysgu cyn peri i'r gwastraff fynd drwy unrhyw un o'r gweithrediadau a rifwyd D01 i D12*** |
| **D14** | **Repackaging prior to submission to any of the operations numbered D01 to D12/ *Ailbecynnu cyn peri i'r gwastraff fynd drwy unrhyw un o'r gweithrediadau a rifwyd D01 i D12*** |
| **D15** | **Storage pending any of the operations numbered D01 to D14 (excluding temporary storage, pending collection, on the site where it is produced).** ***Storio tra'n aros am unrhyw un o'r gweithrediadau a rifwyd D01 i D14 (heb gynnwys ei storio dros dro, tra'n aros iddo gael ei gasglu, ar y safle lle mae'n cael ei gynhyrchu).*** |

**Recovery operation/ *Gweithrediad adfer***

| | |
|---|---|
| **R01** | **Use principally as a fuel or other means to generate energy/** ***Defnyddio'r gwastraff yn bennaf fel tanwydd neu fel dull arall o gynhyrchu ynni*** |
| **R02** | **Solvent reclamation/regeneration** ***Adennill/Atgynhyrchu toddyddion*** |
| **R03** | **Recycling/reclamation of organic substances which are not used as solvents (including composting and other biological transformation processes)** ***Ailgylchu/adennill sylweddau organig nad ydynt yn cael eu defnyddio fel toddyddion (gan gynnwys compostio a phrosesau trawsnewid biolegol eraill)*** |
| **R04** | **Recycling/reclamation of metals and metal compounds/** ***Ailgylchu/adennill metelau a chyfansoddion metel*** |
| **R05** | **Recycling/reclamation of other inorganic materials/ailgylchu/*adennill deunyddiau anorganig eraill*** |
| **R06** | **Regeneration of acids or bases/*atgynhyrchu asidau neu fasau*** |
| **R07** | **Recovery of components used for pollution abatement/*Adfer cyfansoddion a ddefnyddir ar gyfer atal llygredd*** |
| **R08** | **Recovery of components from catalysts/*Adfer cyfansoddion o gatalyddion*** |
| **R09** | **Oil refining or other re-uses of oil/ *Puro olew neu ddulliau eraill o ailddefnyddio olew*** |
| **R10** | **Land treatment resulting in benefit to agriculture or ecological improvement** ***Trin tir sy'n arwain at les i amaethyddiaeth neu at welliant ecolegol*** |
| **R11** | **Use of wastes obtained from any of the operations numbered R01 to R11** ***Defnyddio gwastraffoedd a geir drwy unrhyw un o'r gweithrediadau a rifwyd R01 i R11*** |
| **R12** | **Exchange of wastes for submission to any of the operations numbered R01 to R11** ***Cyfnewid gwastraffoedd er mwyn iddynt fynd drwy unrhyw un o'r gweithediadau a rifwyd R01 i R11*** |
| **R13** | **Storage of wastes pending any of the operations numbered R01 to R12 (excluding temporary storage, pending collection, on the site where it is produced)** ***Storio gwastraffoedd tra'n aros am unrhyw o'r gweithrediadau a rifwyd R01 i R12 (heb gynnwys eu storio dros dro, tra'n aros iddynt gael eu casglu, ar y safle lle mae'n cael ei gynhyrchu)*** |

## ATODLEN 9

Rheoliad 59

## Y FFIOEDD TROSIANNOL A GODIR GAN YR ASIANTAETH

**1.** Mae'r paragraffau canlynol yn effeithiol mewn perthynas â'r ffioedd sy'n daladwy i'r Asiantaeth o dan y Rheoliadau hyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I103** Atod. 9 para. 1 mewn grym ar 6.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(a)**

**2.** Y ffi sydd i'w thalu wrth roi hysbysiad am fangre yn unol â rheoliad 26 yw—

(a) £28 am bob set o fangreoedd a hysbysir yn ysgrifenedig;

(b) £23 am bob set o fangreoedd a hysbysir dros y ffôn; ac

(c) £18 am bob set o fangreoedd a hysbysir ar ffurf electronig.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I104** Atod. 9 para. 2 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**3.** Mae'r ffi sydd i'w thalu gan draddodai mewn perthynas ag unrhyw atebion chwarterol traddodai a roddir yn unol â rheoliad 53 fel a ganlyn—

(a) am unrhyw ateb a roddir yn ysgrifenedig, swm y meintiau canlynol ar gyfer pob llwyth a dderbyniwyd gan y traddodai yn ystod y chwarter—

(i) £10 am bob llwyth sy'n ffurfio rhan o amlgasgliad; a

(ii) £19 am unrhyw lwyth arall; a

(b) am unrhyw ateb a roddir ar ffurf electronig, swm y meintiau canlynol ar gyfer pob llwyth a dderbyniwyd gan y traddodai yn ystod y chwarter—

(i) £5 am bob llwyth sy'n ffurfio rhan o amlgasgliad; a

(ii) £10 am unrhyw lwyth arall.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I105** Atod. 9 para. 3 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**4.** Y ffi sydd i'w thalu gan gynhyrchydd mewn perthynas ag unrhyw ateb hunanwaredu a wneir yn unol â rheoliad 53 yw—

(a) am unrhyw ateb a roddir yn ysgrifenedig, £19; a

(b) am unrhyw ateb a roddir ar ffurf electronig, £10.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I106** Atod. 9 para. 4 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**5.** Yr amser i dalu'r ffi sy'n ofynnol o dan baragraff 3 a 4 yw'r dyddiad diweddaraf o'r 30 niwrnod sy'n dilyn —

(a) diwrnod olaf y chwarter y mae'r ateb i'w gwmpasu os na chyflwynir ateb yn unol â rheoliad 53; neu

(b) y dyddiad y cyflwynwyd yr ateb yn unol â rheoliad 53.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I107** Atod. 9 para. 5 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**6.** Caiff traddodai adennill o draddodwr unrhyw ffioedd a dalwyd o dan baragraff 3 o ran llwythi a anfonwyd gan y traddodwr hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I108** Atod. 9 para. 6 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

## ATODLEN 10

Rheoliad 70(7)

## FFURF HYSBYSIADAU COSBAU PENODEDIG

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I109** Atod. 10 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

HAZARDOUS WASTE (WALES) REGULATIONS 2005, SCHEDULE 10
RHEOLIADAU GWASTRAFF PERYGLUS (CYMRU) 2005, ATODLEN 10

**Notice Number/ *Rhif Hysbysiad:***
**Name of alleged offender/ *Enw'r tramgwyddwr honedig:***
**Address/ *Cyfeiriad:***

**I, /*Mae gennyf fi* ___________________________________ (1)**
**an authorised person acting on behalf of the Environment Agency, / *sy'n berson awdurdodedig sy'n gweithredu ar ran Asiantaeth yr Amgylchedd,***
**have reason to believe that on or between/ *le i gredu eich bod ar neu rhwng* __________________________________ (2),**
**you committed the offence of/ *wedi cyflawni tramgwydd, sef* _____________________________________________(3).**
**This notice offers you the opportunity of discharging any liability to conviction for that offence by payment of a fixed penalty.**
***Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi cyfle i chi fodloni unrhyw atebolrwydd i gollfarn am y tramgwydd hwnnw drwy dalu cosb benodedig.***

**The circumstances alleged to constitute the offence are as follows/ *Mae'r amgylchiadau yr honnir eu bod yn creu'r tramgwydd fel a ganlyn:***
________________________________________________________________________________
________________________________________________________________________________
________________________________________________________________________________
________________________________________________________________________________

**No proceedings will be taken for this offence before the expiration of 28 days from the date of this notice. You will not be liable to conviction for the offence if you pay the fixed penalty during that period of 28 days.**
***Ni ddygir achos am y tramgwydd hwnnw cyn pen 28 niwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn. Ni fyddwch yn agored i gollfarn am y tramgwydd os byddwch yn talu'r gosb benodedig yn ystod y cyfnod hwnnw o 28 niwrnod.***

**The amount of the fixed penalty is £300. /*£300 yw swm y gosb benodedig.***
**It may be paid to/ *Gellir ei dalu i* ____________________________(4)**
**at the following address/ *yn y cyfeiriad canlynol*:**
_________________________________________________________________________ **(5).**
**Payment may be made by pre-paying and posting to/ *Gellir gwneud y taliad drwy ragdalu ac anfon***
**at:__________________________________ (4)**
**at the address shown above a letter containing the amount of the penalty/ *yn y cyfeiriad a welir uchod lythyr yn cynnwys swm y gosb.***
**Payment may also be made by cash, or by cheque, postal order or money order made payable to/ *Gellir talu hefyd ag arian parod, neu â siec, archeb bost neu archeb arian yn daladwy i:*_________________________________ (4).**

**If you are sending cash, you are advised to send it by registered post. Payment made in this way will be regarded as having been made at the time at which the letter would be delivered in the ordinary course of post. Alternatively, payment may be made in person or by any other method.**
***Os byddwch yn anfon arian parod, fe'ch cynghorir i'w anfon drwy'r post cofrestredig. Bernir bod taliad a wnaed fel hyn wedi'i wneud ar yr amser y byddid yn traddodi'r llythyr hwnnw yn nhrefn arferol y post. Fel arall, gellir talu'n bersonol neu drwy unrhyw ddull arall.***

**Signature of authorised person/ *Llofnod y person awdurdodedig*: ________________________________________________**
**Date of notice/ *Dyddiad yr hsbysiad*:_________________________________________________________________________**

**Notes/ *Nodiadau*:**
**(1) Insert name of authorised person/ *Mewnosoder enw'r person awdurdodedig.***
**(2) Insert date on or dates between which offence is alleged to have taken place.** ~
***Mewnosoder y dyddiad yr honnir bod y tramgwydd wedi digwydd neu'r dyddiadau yr honnir ei fod wedi digwydd rhyngddynt.***

**(3) Insert regulation of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005 which is alleged to have been contravened**
***Mewnosoder y rheoliad yn Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 yr honnir ei fod wedi'i dorri.***
**(4) Insert title or name of the person to whom the fixed penalty is to be paid.**
***Mewnosoder teitl neu enw'r person y mae'r gosb benodedig i'w thalu iddo.***
**5) Insert address at which payment is to be made.**
***Mewnosoder y cyfeiriad lle mae'r taliad i'w wneud.***

---

**Letter which may be used for payment by post**
***Llythyr y gellir ei ddefnyddio i dalu drwy'r post***

**I enclose with this letter the amount of £300 being the fixed penalty for the offence described in Fixed Penalty Notice number/** ***Yr wyf yn amgáu gyda'r llythyr hwn y swm o £300 sef y gosb benodedig am y tramgwydd a ddisgrifir yn Hysbysiad Cosb Benodedig rhif:*** **_______________________________________________ (1)**
**under Schedule 10 of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005/ o dan Atodlen 10 i Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005.**

**Signature/*Llofnod:*** ______________________________________________________________________________________

**Name in capitals/ *Enw mewn priflythrennau:*** ____________________________________________________________
**Address/**
***Cyfeiriad*:** ______________________________________________________________________________________

**Notes/ *Nodiadau*:**

**(1) Insert Notice number that appears in the fixed penalty notice above/*Mewnosoder rhif yr Hysbysiad sy'n ymddangos yn yr hysbysiad cosb benodedig uchod.***

ATODLEN 11 Rheoliad 73

DIWYGIADAU CANLYNIADOL

# RHAN 1

## DIWYGIADAU I DDEDDFWRIAETH SYLFAENOL

*Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990*

**1.** Mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn cael ei diwygio fel a ganlyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I110** Atod. 11 para. 1 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**2.** Yn adran 75 (fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005(**38**)—

(**38**) OJ No L 259, 15. 10. 1979, p. 10.

(a) yn is-adran (8A) yn lle paragraff (b) rhodder—

"(b) in the application of this Part to Wales, means any waste which is a hazardous waste for the purposes of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005.";

(b) mae is-adran (8B) yn cael ei hepgor.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I111** Atod. 11 para. 2 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

*Deddf Gwastraff a Masnachu Allyriadau 2003*

**3.** Mae Deddf Gwastraff a Masnachu Allyriadau 2003(**39**) yn cael ei diwygio fel a ganlyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I112** Atod. 11 para. 3 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**4.** Yn adran 25(2), yn lle "for the purpose of Council Directive 91/689/EEC" rhodder "within the meaning of regulation 6 of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I113** Atod. 11 para. 4 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

# RHAN 2

## DIWYGIADAU I IS-DDEDDFWRIAETH

*Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cofrestru Cludwyr ac Atafaelu Cerbydau) 1991*

**5.** Mae Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cofrestru Cludwyr ac Atafaelu Cerbydau) 1991(**40**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I114** Atod. 11 para. 5 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**6.** Ar ddiwedd Atodlen 1 mewnosoder "The Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I115** Atod. 11 para. 6 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

(**39**) OJ No L 257, 16.9.1983, p.1.
(**40**) OJ No L 251, 19.9.1984, p.1.

*Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) 1991*

**7.** Mae Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) 1991(**41**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I116** Atod. 11 para. 7 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**8.** Yn rheoliad 2(3), yn lle "special waste" rhodder "hazardous waste", ac yn lle "Special Waste Regulations 1996" rhodder "Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I117** Atod. 11 para. 8 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

*Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Prosesau a Sylweddau Rhagnodedig) 1991*

**9.** Mae Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Prosesau a Sylweddau Rhagnodedig) 1991(**42**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I118** Atod. 11 para. 9 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**10.** Yn Adran 5.1 o Bennod 5 o Atodlen 1—

(a) yn y diffiniad o "exempt hazardous waste incineration plant"—

(i) ym mharagraff (ii) yn lle "Annex II to Directive 91/689/EEC on hazardous waste" rhodder "Schedule 2 of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005";

(ii) ym mharagraff (iii) yn lle "Annex III to Directive 91/689/EEC on hazardous waste" rhodder "Schedule 3 of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005";

(b) yn y diffiniad o "hazardous waste"—

(i) yn y geiriau agoriadol, yn lle "Article 1(4) of Directive 91/689/EEC" rhodder "regulation 6 of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005"; a

(ii) yn is-baragraff (i)(b) a pharagraff (v), yn lle "in Annex II to Directive 91/689/EEC" rhodder "in Schedule 2 to the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I119** Atod. 11 para. 10 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

*Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff 1994*

**11.** Mae Rheoliadau 1994 yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

(**41**) OJ Rhif L310, 03.12.1994, t.70.
(**42**) O.S. 2005/894.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I120** Atod. 11 para. 11 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**12.** Yn rheoliad 1(3), yn lle'r diffiniad o "special waste", rhodder

""hazardous waste" has the meaning given by regulation 6 of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I121** Atod. 11 para. 12 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**13.** Yn rheoliad 3, ar y diwedd ychwaneger "(q) the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I122** Atod. 11 para. 13 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**14.** Yn rheoliad 10(1)(j) yn lle "special waste" rhodder "hazardous waste".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I123** Atod. 11 para. 14 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**15.** Yn rheoliad 10(1)(k) ar y diwedd mewnosoder "or regulation 47(5) or 48(6) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I124** Atod. 11 para. 15 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**16.** Yn rheoliad 14(1) a 14(2), yn lle "toxic and dangerous waste" rhodder "hazardous waste", ac yn rheoliad 14(3) yn lle'r diffiniad o "toxic and dangerous waste" rhodder ""hazardous waste" has the meaning given by regulation 6 of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005.".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I125** Atod. 11 para. 16 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**17.** Yn rheoliad 17(3) a 17(3A) yn lle "special waste" rhodder "hazardous waste".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I126** Atod. 11 para. 17 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**18.** Ym mharagraff 5 o Atodlen 1, yn lle is-baragraff (d) hyd at ddiwedd paragraff 5, rhodder—

"(d) every record made relating to the site pursuant to regulation 14 of the Control of Pollution (Special Waste) Regulations 1980, regulation 16 of the 1996 Regulations, or regulation 47 of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005;

and any estimate under paragraph 4 of the total quantities of the different types of waste dealt with at the site shall, in particular, differentiate between biodegradable waste, non-biodegradable waste and hazardous waste.”.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I127** Atod. 11 para. 18 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**19.** Ym mharagraff 2(1) o Atodlen 1A, yn lle'r diffiniad o wastraff peryglus rhodder "“hazardous waste” means such waste as defined in Regulation 6 of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005.”

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I128** Atod. 11 para. 19 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**20.** Yn atodlen 3, ym mharagraffau 3(a)(ii), 3(c), 18(2)(b), 28, 36(1), 36(2), 38, 39(1), 39(2), 41(2), ac yn nhablau 4, 4A a 4B, bob tro y mae'n ymddangos, yn lle “special waste” rhodder “hazardous waste”.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I129** Atod. 11 para. 20 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**21.** Ym mharagraff 9 o Atodlen 4, hepgorer is-baragraffau (9) a (10).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I130** Atod. 11 para. 21 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**22.** Ym mharagraff 13(1) o Atodlen 4 dileer “, and producers of special waste,”.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I131** Atod. 11 para. 22 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**23.** Ym mharagraffau 14(1)(b) a 14(1A) o Atodlen 4 yn lle “special waste” rhodder “hazardous waste”.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I132** Atod. 11 para. 23 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**24.** Yn lle paragraff 14(5) o Atodlen 4, rhodder—

“(2) Paragraph (a) of regulation 66 of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005 (defence in case of emergency) shall apply to a person charged with an offence under paragraph (4) above as it applies to a person charged with an offence under regulation 65 of those Regulations.”.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I133** Atod. 11 para. 24 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**25.** Yn lle paragraff 14(8) o Atodlen 4, rhodder—

"(8) Regulations 67 and 69(2) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005 shall apply to an offence under this paragraph as they apply to an offence under regulation 65 of those Regulations.".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I134** Atod. 11 para. 25 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

*Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999*

**26.** Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999(**43**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I135** Atod. 11 para. 26 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**27.** Ym mharagraff 9 o Atodlen 1, yn lle "hazardous waste (that is to say, waste to which Council Directive 91/689/EEC applies)." rhodder "hazardous waste as defined in regulation 6 of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005.".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I136** Atod. 11 para. 27 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

*Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwaredu Deuffenylau Polyclorineiddiedig a Sylweddau Peryglus) (Cymru a Lloegr) 2000*

**28.** Mae Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwaredu Deuffenylau Polyclorineiddiedig a Sylweddau Peryglus) (Cymru a Lloegr) 2000(**44**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I137** Atod. 11 para. 28 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**29.** Yn lle rheoliad 11(3), rhodder y canlynol—

"(3) Subject to paragraphs (5) and (7), the Agency shall keep a register specifying the quantity, origin, nature and PCB content of used PCBs in respect of which—

(a) copies of consignment notes specifying that information are furnished to it under regulations 5(4), 8(7) or 9(3) of the Special Waste Regulations 1996; or

(**43**) 2003 p.33.
(**44**) O.S. 1991/1624; diwygiwyd Atodlen gan O.S. 1994/1137, 1996/972, 2000/1973.

(b) quarterly returns specifying that information are furnished to it under regulation 53 of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005,

and which in either case have been furnished by a person in the course of a business concerned with the disposal of PCBs."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I138** Atod. 11 para. 29 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

*Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) 2000*

**30.** Mae Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) 2000(**45**) (sy'n rhychwantu Cymru a Lloegr) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I139** Atod. 11 para. 30 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**31.** Ym mhennod 5 o Atodlen 1—

(a) yn y diffiniad o "hazardous waste" yn y paragraff yn Adran 5.1 sy'n dwyn y pennawd "Interpretation of Section 5.1" —

(i) yn y geiriau agoriadol yn lle "Article 1(4) of Directive 91/689/EEC on hazardous waste" rhodder "regulation 6 of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005"; a

(ii) ym mharagraff (a)(ii) yn lle "Annex II to Directive 91/689/EEC on hazardous waste" rhodder "Schedule 2 of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005";

(b) ym mharagraff 1 o'r paragraff yn Adran 5.3 sy'n dwyn y pennawd "Interpretation of Part A(1)" yn lle'r diffiniad o "hazardous waste", rhodder ""hazardous waste" means any waste as defined for the time being in regulation 6 of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005."; ac

(c) yn y paragraff yn Adran 5.4 sy'n dwyn y pennawd "Interpretation of Part A(1)" mewnosoder y canlynol ar ôl paragraff 3—

"**4.** In this Part, hazardous waste means any waste as defined in regulation 6 of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005.".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I140** Atod. 11 para. 31 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

*Rheoliadau Cemegion (Gwybodaeth am Beryglon a Phecynnu ar gyfer Cyflenwi) 2002*

**32.** Mae Rheoliadau Cemegion (Gwybodaeth am Beryglon a Phecynnu ar gyfer Cyflenwi) 2002(**46**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

(**45**) O.S. 1991/2839; fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/1559, 2003/63.
(**46**) O.S. 1991/472; mae diwygiadau perthnasol wedi'u cynnwys yn O.S. 1998/767.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I141** Atod. 11 para. 32 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**33.** Yn rheoliad 3(3)(e), yn lle "Special Waste Regulations 1996" rhodder "Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I142** Atod. 11 para. 33 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

*Rheoliadau Tirlenwi (Cymru a Lloegr) 2002*

**34.** Mae Rheoliadau Tirlenwi (Cymru a Lloegr) 2002(**47**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I143** Atod. 11 para. 34 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**35.** Yn Rheoliad 7(2) yn lle "Hazardous waste means any waste as defined in Article 1(4) of Directive 91/689/EEC (hazardous waste)." rhodder "Hazardous waste means any waste as defined in regulation 6 of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005.".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I144** Atod. 11 para. 35 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**36.** Yn lle paragraff 2(a) o Atodlen 1, rhodder "(a) it is a hazardous waste as defined in the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005; and".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I145** Atod. 11 para. 36 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**37.** Yn lle paragraff 3(1)(a) o Atodlen 1, rhodder "(a) it is a hazardous waste as defined in the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005; and".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I146** Atod. 11 para. 37 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**38.** Yn lle paragraff 3(1)(b) o Atodlen 1, rhodder "(b) it is a non-hazardous waste as defined in the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005.".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I147** Atod. 11 para. 38 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

(**47**) O.S. 1999/293, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**39.** Yn lle paragraff 5(1)(g) o Atodlen 1, rhodder—

"(g) in the case of hazardous waste, the relevant properties which render it hazardous as listed in Schedule 3 of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005;".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I148** Atod. 11 para. 39 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

*Rheoliadau Pecynnu (Gofynion Hanfodol) 2003*

**40.** Mae Rheoliadau Pecynnu (Gofynion Hanfodol) 2003(**48**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I149** Atod. 11 para. 40 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**41.** Yn rheoliad 3(2), yn lle'r geiriau "or the provisions of Council Directive 91/689/EEC on hazardous waste." rhodder "or the provisions of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I150** Atod. 11 para. 41 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

## ATODLEN 12

Rheoliad 74

### DARPARIAETHAU TROSIANNOL

### DARPARIAETHAU'R RHEOLIADAU HYN

**1.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw hysbysiad o fangre a roddir at ddibenion y Rheoliadau hyn o'r diwrnod ar ôl diwrnod gwneud y Rheoliadau hyn a chyn 16 Gorffennaf 2005.

(2) Pan fwriedir symud gwastraff o unrhyw fangre ar ôl 16 Gorffennaf 2005, caiff cynhyrchydd, ac, o dan yr amgylchiadau y darperir ar eu cyfer yn rheoliad 25, traddodwr, hysbysu mangre i'r Asiantaeth ymlaen llaw yn unol â rheoliad 26.

(3) Ni chaiff yr amser effeithiol fod ar ddyddiad sy'n gynharach nag 16 Gorffennaf 2005 nac ar ddyddiad sy'n hwyrach nag 16 Medi 2005.

(4) Rhaid i'r Asiantaeth, pan fydd hysbysiad wedi'i roi'n briodol yn unol â'r paragraff hwn, ddyroddi cod mangre yn unol â rheoliad 27.

(5) Mae i ymadroddion a ddefnyddir yn y paragraff hwn yr un ystyron ag yn Rhan 5.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I151** Atod. 12 para. 1 mewn grym ar 6.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(a)**

(**48**) O.S. 2000/1043, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**2.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw gamau a gymerwyd gan gynhyrchydd neu draddodwr cyn i'r paragraff hwn ddod i rym ond a fyddai, pe baent wedi'u cymryd ar ôl iddo ddod i rym, wedi bod yn hysbysiad a oedd yn cydymffurfio â rheoliad 26 (“rhaghysbysiad”).

(2) Mae rhaghysbysiad i'w ystyried yn hysbysiad a roddir pan fydd y paragraff hwn wedi dod i rym.

(3) Nid yw rheoliad 28(1) yn gymwys i hysbysiad sy'n codi o raghysbysiad a daw'r hysbysiad hwnnw'n effeithiol, yn lle hynny:

(a) os gofynnodd y person a roes y rhaghysbysiad am ddyddiad ar gyfer cychwyn, ar ddechrau'r dyddiad y gofynnwyd amdano felly;

(b) os na chafodd unrhyw gais o'r fath ei wneud, ar ddechrau'r pedwerydd diwrnod ar ôl y diwrnod y digwyddodd y rhaghysbysu;

(c) pan fydd y taliad o'r ffi berthnasol wedi'i dderbyn gan yr Asiantaeth;

(ch) pan fydd y paragraff hwn wedi dod i rym;

p'un bynnag yw'r diweddaraf.

(4) Pan fo'r Asiantaeth yn dyroddi cod mangre ar gyfer mangre sy'n destun rhaghysbysiad a roddwyd yn unol â'r paragraff hwn, mae'r cod hwnnw i'w ystyried yn god a ddyroddwyd ar y dyddiad y daeth y paragraff hwn i rym.

(5) Pan fo'r ffi berthnasol wedi'i thalu i'r Asiantaeth ar gyfer rhaghysbysiad, mae'r ffi honno i'w hystyried yn ffi sydd wedi'i thalu at ddibenion rheoliad 26(7) pan fydd y paragraff hwn wedi dod i rym.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I152** Atod. 12 para. 2 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**3.** Pan fo gwaith symud gwastraff drwy biblinell o unrhyw fangre wedi'i ddechrau cyn 16 Gorffennaf 2005 ond yn parhau ar ôl hynny, mae rheoliad 41 yn effeithiol fel petai 16 Gorffennaf 2005 oedd y diwrnod cyntaf y cafodd y gwastraff ei symud drwy biblinell.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I153** Atod. 12 para. 3 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

# RHAN 2

## CYFUNDREFNAU CANIATÁU

**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol yr Atodlen hon, mae cyfeiriad mewn trwydded gwastraff at wastraff arbennig, neu at wastraff arbennig o unrhyw ddisgrifiad (sut bynnag y mae wedi'i lunio), yn gyfeiriad at wastraff peryglus, neu wastraff peryglus o'r disgrifiad hwnnw, yn ôl y digwydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I154** Atod. 12 para. 4 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**5.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â gwastraff nad oedd yn wastraff arbennig yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym os bydd y gwastraff hwnnw yn dod yn wastraff peryglus o ganlyniad i'r Rheoliadau hyn ("gwastraff y mae ei statws wedi'i newid").

(2) Nid yw unrhyw waharddiad cyffredinol neu gyfyngiad cyffredinol sydd wedi'i gynnwys mewn trwydded gwastraff sy'n ymwneud â gwaredu neu adfer gwastraff arbennig o dan y drwydded honno yn union cyn i'r Rheoliadau hynny ddod i rym yn gymwys i waredu neu adfer gwastraff y mae ei statws wedi'i newid i'r graddau y mae'r drwydded yn benodol yn awdurdodi gwaredu neu adfer y math hwnnw o wastraff.

(3) Caiff deiliad trwydded gwastraff na fyddai wedi'i awdurdodi mwyach i barhau i waredu neu adfer y gwastraff hwnnw o dan ei drwydded oherwydd y newid yn statws y gwastraff hwnnw, barhau i waredu neu adfer y gwastraff hwnnw yn unol â'r drwydded er gwaethaf y newid mewn statws tan y dyddiad rhagnodedig.

(4) Nid yw rheoliad 17(3) o Reoliadau 1994 yn gymwys i gynnal gweithgaredd esempt sy'n ymwneud â gwastraff y mae ei statws wedi'i newid yn unrhyw le gan berson a oedd yn cynnal y gweithgaredd hwnnw yn y lle hwnnw cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ("person esempt o ran gwastraff y mae ei statws wedi'i newid").

(5) Caiff person esempt o ran gwastraff y mae ei statws wedi'i newid, a hwnnw'n berson na fyddai wedi'i awdurdodi mwyach i gynnal gweithgaredd esempt sy'n cynnwys gwastraff o'r fath oherwydd y newid yn ei statws, barhau i gynnal y gweithgaredd hwnnw yn y lle hwnnw yn unol â Rheoliadau 1994 er gwaethaf y newid mewn statws tan y dyddiad rhagnodedig.

(6) Y dyddiad rhagnodedig—

(a) os bydd cais am drwydded gwastraff neu amrywiad i drwydded wedi'i wneud yn briodol mewn perthynas â'r gweithgaredd cyn 16 Gorffennaf 2006, yw'r dyddiad y cytunir ar y cais neu os gwrthodir y cais (neu os bernir bod y cais wedi'i wrthod), y dyddiad daw'r cyfnod ar gyfer apelio i ben heb fod apêl wedi'i gwneud neu'r dyddiad y tynnir unrhyw apêl yn ôl neu y penderfynir yn derfynol arni; neu

(b) mewn unrhyw achos arall, yw 16 Gorffennaf 2006.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I155** Atod. 12 para. 5 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r gyfundrefn ar gyfer rheoli ac olrhain gwaith symud gwastraff peryglus at ddibenion gweithredu'r Gyfarwyddeb Gwastraff Peryglus (Cyfarwyddeb 91/689/EC). Mae'r Rheoliadau yn gymwys o ran Cymru.

### Gwastraff Peryglus

Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff (Cyfarwyddeb 75/442/EEC) yn rheoleiddio, yn ddarostyngedig i eithriadau penodol, y broses o reoli pob math o wastraff ("gwastraff y

Gyfarwyddeb”). Mae'r Gyfarwyddeb Gwastraff Peryglus yn ategu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff drwy osod gofynion ychwanegol o ran gwastraff y Gyfarwyddeb sy'n amlygu nodweddion peryglus penodol. Mae'r gofynion hyn wedi'u trosi o'r blaen gan Reoliadau Gwastraff Arbennig 1996, drwy reolaethau ar “wastraff arbennig”. Mae'r Rheoliadau hyn yn diddymu Rheoliadau Gwastraff Arbennig 1996 ac yn rhoi'r term “gwastraff peryglus” (“hazardous waste”) yn lle'r term “gwastraff arbennig” (“special waste”).

Mae Rhannau 1 i 3 o'r Rheoliadau yn diffinio gwastraff peryglus ac yn nodi sut mae'r Rheoliadau yn gymwys i'r gwastraff hwnnw. Mae'r diffiniad o wastraff peryglus yn rheoliad 6 yn cyfeirio at y rhestr o wastraffoedd peryglus a nodir yn Rheoliadau'r Rhestr Wastraffoedd (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1820 (Cy.148)) sy'n cael eu gwneud ar yr un dyddiad â'r Rheoliadau hyn.

Mae eithriad rhag y rheolaethau hyn ar gyfer gwastraff domestig sy'n amlygu nodweddion peryglus ond nid os yw wedi'i ffurfio o wastraff asbestos neu'n cael ei gasglu ar wahân. Yn y naill achos a'r llall, nid yw'r rheoliadau yn gosod rhwymedigaethau yn uniongyrchol ar ddeiliaid tai.

### Gwahardd Cymysgu

Mae Rhan 4 yn gwahardd cymysgu gwastraff peryglus onid yw wedi'i ganiatáu fel rhan o weithrediad gwaredu neu adfer yn unol â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff. Mae'n gosod dyletswydd hefyd i wahanu gwahanol gategorïau o Wastraff Peryglus pan fo hynny'n dechnegol ddichonadwy.

### Hysbysu

Mae Rhan 5 yn ei gwneud yn dramgwydd i symud gwastraff peryglus o fangre na hysbyswyd Asiantaeth yr Amgylchedd ohoni, onid yw'n fangre esempt neu onid yw'r gwastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon. Rhaid i gynhyrchydd y gwastraff neu'r traddodwr (y person sy'n trefnu ar gyfer symud y gwastraff) hysbysu pob mangre lle mae gwastraff peryglus yn cael ei gynhyrchu neu ei symud. Mae hysbysiad yn para 12 mis ac ar ôl hynny rhaid hysbysu'r fangre eto. Mae ffi yn daladwy i Asiantaeth yr Amgylchedd pan hysbysir mangre.

### Symud Gwastraff Peryglus

Mae Rhan 6 yn ei gwneud yn ofynnol i ddogfennau gael eu cwblhau pryd bynnag y mae gwastraff peryglus yn cael ei symud o fangre (sy'n cynnwys ei symud o longau a'i symud drwy biblinell). Mae'r amrywiol fathau o ffurflen i'w gweld yn Atodlenni 4 i 6. Diben hyn yw sicrhau bod disgrifiad cywir o lwythi gwastraff yn mynd gyda hwy pryd bynnag y byddant yn symud. Mae hyn yn ychwanegol at unrhyw ofynion i sicrhau bod gwastraff peryglus yn cael ei becynnu a'i labelu'n briodol (gweler yn benodol Reoliadau Pecynnu (Gofynion Hanfodol) 2003 (O.S. 2003/1941).

Mae'n ofynnol i gynhyrchwyr, deiliaid, cludwyr, traddodwyr a thraddodeion gwblhau gwahanol rannau o'r ffurflenni. Os bydd y traddodai yn gwrthod y gwastraff, rhaid gwneud trefniadau amgen addas. Mae Atodlen 7 yn ymdrin â throsglwyddiadau trawsffiniol o fewn y Deyrnas Unedig a Gibraltar.

### Cofnodion ac Atebion

Mae Rhan 7 yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr, deiliaid, cludwyr, traddodwyr a thraddodeion gadw cofnodion. Rhaid iddynt gael eu cadw am 3 blynedd o leiaf ac eithrio yn achos cludwyr pan fo'r cyfnod yn gyfnod o 12 mis. Mae'n ofynnol i draddodeion roi i Asiantaeth yr Amgylchedd atebion chwarterol sy'n nodi'r llwythi y maent wedi'u cael yn ystod y cyfnod hwnnw. Gall fod yn ofynnol i draddodeion dalu ffi i Asiantaeth yr Amgylchedd ond rhoddir hawl iddynt ei hadennill oddi wrth y traddodwyr a anfonodd y gwastraff atynt. Mae'n ofynnol hefyd iddynt anfon ateb at y cynhyrchwyr neu'r deiliaid a anfonodd wastraff atynt. Mae Atodlen 9 yn nodi cynllun trosiannol ar gyfer ffioedd.

### Swyddogaethau'r Asiantaeth

Mae Rhan 8 yn nodi swyddogaethau'r Asiantaeth. Yn benodol, mae'n ofynnol i'r Asiantaeth arolygu cynhyrchwyr gwastraff peryglus o bryd i'w gilydd a chadw unrhyw gofnodion a anfonwyd ati yn unol â Rhan 7 am 3 blynedd o leiaf.

### Argyfyngau a Pherygl Difrifol

Mae Rhan 9 yn gosod dyletswyddau ar ddeiliaid gwastraff peryglus ac Asiantaeth yr Amgylchedd os bydd argyfwng neu berygl difrifol sy'n deillio o wastraff peryglus.

### Gorfodi

Mae Rhan 10 yn ei gwneud yn dramgwydd i fethu â chydymffurfio â gofynion y Rheoliadau hyn. Lefel 5 ar y raddfa safonol (£5000 ar hyn o bryd) yw'r gosb uchaf am fethu â chydymffurfio â gofyniad a osodwyd gan neu o dan y rheoliadau a nodir yn rheoliad 69(1). Caiff yr Asiantaeth ddyroddi hysbysiadau cosbau penodedig o £300 yn lle ceisio sicrhau collfarniad am dramgwyddau o'r fath. Mae tramgwyddau eraill o dan y Rheoliadau (gan gynnwys darparu gwybodaeth anwir) yn ddarostyngedig i'r ddirwy uchaf, sef lefel 5, os ydynt yn destun prawf diannod, ac yn ddarostyngedig i ddirwyon uwch a charchariad hefyd os ydynt yn destun prawf ar dditiad.

### Diwygiadau i reoliadau eraill

Mae Atodlen 11 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i reoliadau fel bod cyfeiriadau at wastraff arbennig yn cael eu hepgor a bod cyfeiriadau at wastraff peryglus yn cael eu diweddaru i fod yn gyson â'r Rheoliadau hyn.

### Darpariaeth drosiannol

Mae Atodlen 12 yn gwneud darpariaeth drosiannol. Mae'n darparu ar gyfer hysbysu cyn bod y rheoliadau yn llwyr ddod i rym. Mae'n gwneud darpariaeth drosiannol hefyd ar gyfer yr achosion hynny lle byddai'r newid i wastraff peryglus o wastraff arbennig yn golygu na fyddai person wedi'i awdurdodi mwyach i waredu neu adfer gwastraff.

Mae arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi. Gellir cael copïau o Is-adran yr Amgylchedd — Diogelu ac Ansawdd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Mae'r gyfrol sy'n dwyn y teitl “Indexes to the United Kingdom Standard Industrial Classification of Economic Activities 2003”, ac y cyfeirir ati yn y diffiniad o “SIC”, ar gael oddi wrth y Stationery Office Limited drwy ffonio 0870 600 552.

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 16/07/2005.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.